

Ffocws ar chwarae

Chwarae a chynghorwyr sir



Mae gan gynghorwyr sir wreiddiau cryfion yn y gymuned. Mae'r trigolion yn eu hadnabod yn dda ac yn aml bydd ganddynt gysylltiadau cryfion gyda phobl ddefnyddiol a phartneriaid posibl, fel awdurdodau lleol, ysgolion ac arweinyddion busnes.

Mae cynghorwyr mewn sefyllfa dda i fod yn gefnogwyr chwarae ar gyfer y cymunedau y maent yn eu cynrychioli, tra hefyd yn sicrhau bod y cyngor cyfan yn cydymffurfio gyda dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â digonolrwydd chwarae.

Mae'r papur briffio hwn ar gyfer cynghorwyr yn cynnwys gwybodaeth am ddyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal.

Pam fod Llywodraeth Cymru wedi deddfu dros chwarae?

Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gwerth mawr ar chwarae a'i bwysigrwydd ym mywydau plant. Mae Polisi Chwarae Llywodraeth Cymru'n pwysleisio bod gan blant hawl sylfaenol i allu chwarae, a bod chwarae'n ganolog i'w mwynhad o fywyd a'i fod yn cyfrannu at eu lles. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall cyfleoedd chwarae o safon uchel ar gyfer pob plentyn gyfrannu at leddfau effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant a helpu i gynyddu eu gwytnwch.

Chwarae yw un o agweddau pwysicaf bywydau plant. Mae plant yn gwerthfawrogi cael amser, rhyddid a manau o safon i chwarae. Pan ofynnir iddynt beth sy'n bwysig iddyn nhw, bydd plant yn cyfeirio'n gyson at chwarae a chwrdd gyda'u ffrindiau.

Mae fframwaith polisi cenedlaethol Cymru'n anelu i sicrhau bod 'cymunedau'n croesawu mwy o gyfleoedd chwarae drwy werthfawrogi a chynyddu nifer y cyfleoedd chwarae o ansawdd sydd ar gael ym mhob rhan o'r gymuned. Ein nod yw gweld mwy o blant yn chwarae... a thrwy hynny'n mwynhau'r manteision iechyd, cymdeithasol, gwybyddol ac emosiynol sy'n gysylltiedig â chwarae'.¹

Yn rhyngwladol, mae pwysigrwydd chwarae yn cael ei gydnabod a'i warchod yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Erthygl 31 CCUHP yn datgan bod gan y plentyn hawl i chwarae ac ymuno mewn gweithgareddau adloniadol eraill. Fel arwydd o'r pwysigrwydd y mae'r Cenedloedd Unedig yn ei osod ar chwarae plant, cyhoeddodd Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31.²

Mae hwn yn ddatganiad swyddogol sy'n egluro ymhellach ystyr elfen o GCUHP sydd angen pwyslais neu ddehongliad pellach. Mae'n anelu i egluro ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31. Mae hefyd yn annog gwledydd i ystyried cyflwyno deddfwriaethau sy'n delio ag egwyddor digonolrwydd er mwyn sicrhau'r hawliau a geir o dan Erthygl 31 ar gyfer pob plentyn.

Beth ydw i angen ei wybod am ddigonolrwydd chwarae?

Yn 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu dros chwarae trwy Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae Adran 11 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal.

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, fel y'i hadnabyddir bellach, yn rhan o agenda Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi, sy'n cydnabod y gall plant ddiodeff o dlodi profiad, cyfle ac uchelgais, ac y gall y math hwn o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio digonolrwydd, yng nghyd-destun cyfleoedd chwarae, fel nifer ac ansawdd y cyfleoedd i blant chwarae.

Cyflwynwyd y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn dau ran. Cychwynwyd y rhan cyntaf, sy'n mynnu y dylai awdurdodau lleol asesu digonolrwydd y cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd, ym mis Tachwedd 2012. Cychwynwyd yr ail ran, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd, cyn belled ag sy'n rhesymol ac ymarferol, ym mis Gorffennaf 2014.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cyflwyno Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Gweithredu i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd ers 2013. Mae gofyn hefyd i awdurdodau lleol gyhoeddi crynodeb o'u Hasesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, ddylai gynnwys canlyniadau'r asesiadau ac amlinellu'r camau gweithredu y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

Er mwyn cefnogi'r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Cymru: Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae* – canllawiau statudol sy'n amlinellu'r hyn y dylai awdurdodau lleol ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae'n nodi ystod eang o Faterion, ar draws nifer o feysydd polisi, y dylid eu hystyried:

- Mater A: Poblogaeth
- Mater B: Diwallu anghenion amrywiol
- Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae, gan gynnwys manau agored, manau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff, meysydd chwarae
- Mater Ch: Darparu cyfleoedd dan oruwchwylliaeth, gan gynnwys darparu gwaith chwarae a gweithgareddau hamdden strwythuredig
- Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae
- Mater Dd: Mynediad i le / darpariaeth, gan gynnwys mesurau diogelwch ffyrdd, trafndiaeth, gwybodaeth a chyhoeddustrwydd
- Mater E: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae
- Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys
- Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol.

Ydi'r ddyletswydd wedi gwella deilliannau ar gyfer plant?

Ers cychwyn Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru yn 2012, mae Chwarae Cymru wedi comisiynu pedair astudiaeth ymchwil graddfa fechan.³ Mae'r rhain yn cyflwyno profiadau awdurdodau lleol wrth weithredu'r ddyletswydd i asesu a sicrhau bod eu hardal yn darparu plant gyda digon o gyfleoedd i chwarae.

Mae canfyddiadau'r ymchwil⁴ yma yn nodi 'er gwaetha'r heriau a wynebwyd, mae brwdfrydedd mawr yn dal i fodoli am y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Soniodd pobl am gysylltiadau newydd a llwyddiannau, am chwarae'n cael ei gymryd o ddifrif gan yr awdurdod, ac am fentrau arloesol. Roedd ymdeimlad o werthfawrogiad cyffredinol o natur chwarae plant a'r amodau sydd eu hangen i'w gefnogi, gan gwmpasu darpariaeth benodol yn ogystal â chyfleoedd i blant chwarae a chymdeithasu yn eu cymdogaethau.'



Mae Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn galw am ymgynghori â phlant a gwneir hyn, o leiaf, trwy holiaduron. Mae'r holiadur i blant yn gofyn cwestiynau sy'n anelu i ddarogan bodlonrwydd plant gyda'u cyfleoedd chwarae, a thrwy hynny ddynodi'r rhwystrau pwysicaf y mae'r plant yn eu hwynebu.

Mae dadansoddiad o holiaduron⁵ a gwblhawyd gan bron i 7,000 o blant ar draws pymtheg o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn awgrymu, ar y cyfan, mai'r darlun a gyflwynwyd gan blant ledled Cymru yw pan roddir caniatâd iddynt fynd allan, a phan allant chwarae yn y manau yr hoffent, bod y mwyafrif o blant yn hapus gyda'r dewis o fannau o safon dda. Ar y cyfan, mae'r plant yn fodlon gyda'u cyfleoedd chwarae. Fodd bynnag, mae nifer o blant sydd ddim yn gallu chwarae'r tu allan – oherwydd cyfyngiadau a osodir gan eu rhieni neu faterion sy'n ymwneud ag anabledd neu ethnigrwydd – ac sydd, o ganlyniad, yn methu ennill y buddiannau iechyd, cymdeithasol ac emosiynol mwyaf sydd ar gael.

Sut allwn ni wneud yn siŵr bod digon o chwarae pan mae cyn lleied o arian?

Mae darparu ar gyfer chwarae plant yn ymwneud â mwy na dim ond meysydd chwarae, ardaloedd chwarae a chynlluniau chwarae. Mae'r ymatebion

i'r arolwg plant yn cadarnhau'r haerid yn y Sylw Cyffredinol bod chwarae'n 'digwydd pryd bynnag a ble bynnag y bo cyfle'n codi'⁶ ac mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n cydnabod bod gallu plant i ganfod amser a lle i chwarae'n cael ei effeithio gan holl weithrediadau awdurdodau lleol ac, felly, bod angen i awdurdodau weithio'n drawsadrannol.

Fel y mae'r ymchwil yn dangos, mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n cynnig cyfle i swyddogion awdurdodau lleol dalu sylw i sut y mae manau agored, yn gyffredinol, yn cael eu darparu ar gyfer plant a pha mor rhwydd yw hi iddyn nhw gael mynediad iddynt. Mae nifer o astudiaethau achos ac enghreifftiau o sut y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid wedi mwyafu'r adnoddau i sicrhau digonolrwydd chwarae ar gael.

Beth alla' i ei wneud i gefnogi digonolrwydd chwarae yn y cyngor?

Mae rhywfaint o ffactorau allweddol sydd angen bod yn eu lle i hybu mynediad plant i gyfleoedd chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys caniatâd, amser a lle ac mae cynghorwyr mewn sefyllfa dda i gefnogi'r ffactorau hyn i gyd.

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n gofyn i weithwyr proffesiynol ar draws amryw o sectorau i weithio gyda'i gilydd, er mwyn casglu gwybodaeth yn erbyn y meini prawf yn y templed ar gyfer yr Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a hefyd i lunio a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith. Golyga natur eang y Materion a asesir bod angen i bobl sy'n gweithio ar draws pob maes proffesiynol fod ynghlwm â'r broses ar unai lefel strategol neu drosglwyddo rheng flaen ac, o ganlyniad, mae digonolrwydd chwarae'n fusnes i bawb. Mae Chwarae Cymru wedi cynhyrchu cyfres o bapurau briffio *Ffocws ar Chwarae*⁷ ar gyfer ystod eang o weithwyr proffesiynol i hysbysu cysylltiadau polisi.

Fel cynghorydd, gallwch gyfrannu at gynyddu proffil chwarae'n lleol a sicrhau creu cysylltiadau

trawsadrannol cryfach rhwng swyddogion llywodraeth leol. Mae'r ddyletswydd wedi annog swyddogion cynghorau i roi tro ar fodolau newydd arloesol ond nid yw hyn wedi ei ddeall bob tro gan drigolion lleol. Gallwch weithredu fel eiriolwr yn lleol yn y gymuned yr ydych yn ei gwasanaethu, ac egluro i drigolion pam wnaethpwyd penderfyniadau penodol.

Mae'r Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol wedi arwain at weithio partneriaeth cadarnhaol ar draws awdurdodau lleol⁸, ac mae cefnogaeth cynghorwyr yn allweddol ar gyfer hyn.

Eiriolwch dros chwarae ble bynnag y bo modd – wrth siarad gyda thrigolion, mewn cyfarfodydd cymunedol ac wrth lunio penderfyniadau sy'n effeithio ar blant ac ardegwyr.



Cyfeiriadau

¹ Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

² Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn CRC (2013) *Sylw Cyffredinol Rhif 17 ar hawl y plentyn i orffwys, hamdden, chwarae, gweithgareddau adloniadol, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau (Erth. 31)*. Genefa: Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn.

³ Chwarae Cymru, Ein hymchwil. Ar gael ar: www.chwarae.cymru/polisi-chwarae/ein-hymchwil

⁴ Russell, W., Barclay, M., Derry, C. a Tawil, B. (2019) *Hawl Plant i Chwarae yng Nghymru: Chwe blynedd o straeon a newid ers cychwyn Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Cymru*. Caerdydd: Chwarae Cymru.

⁵ Dallimore, D. (2023) *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru*. Caerdydd: Chwarae Cymru.

⁶ *Sylw Cyffredinol Rhif 17 ar hawl y plentyn i orffwys, hamdden, chwarae, gweithgareddau adloniadol, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau (Erthygl. 31)*.

⁷ Chwarae Cymru, papurau briffio *Ffocws ar Chwarae*. Ar gael ar: www.chwarae.cymru/publications_category/llyfrgell-adnoddau/papur-briffio

⁸ Chwarae Cymru (2019) *Cyflwr chwarae*, Caerdydd: Chwarae Cymru.



www.chwarae.cymru